**Cyf : HSS-02-01 (p2)**

# PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

## 24 IONAWR 2001

## ADRODDIAD MISOL Y GWEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

**1. MATERION STRATEGAETH :**

**1.1** Strategaeth ar gyfer GIG Cymru (NHS Wales)

**1.2** Canllawiau Gwasanaethau Cymdeithasol

**1.3** Gofal Cychwynnol :

Gweithdy y Tu allan i Oriau arferol

Gweithgor Safleoedd Meddygaeth

Grwp Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin

**1.4** Gwasanaethau i'r Henoed

**2. GWELLA IECHYD AC YMDRIN AG ANGHYDRADDOLDEBAU :**

**2.1** Rhestrau Aros

**2.2** Pwysau Achosion Brys dros y Gaeaf

**3. RHEOLEIDDIO AC AROLYGU ANSAWDD :**

**3.1** Gwasanaethau Plant Conwy

**3.2** Rhaglen Gefnogi Hyfforddiant Gwasanaethau Cymdeithasol Personol

**3.3** Diweddariad ar y digwyddiad anffodus yn Ysbyty’r Tywysog Philip, Llanelli

**3.4** Adolygiadau Pum Mlynedd Saith Corff Ymgynghorol Cyhoeddus Proffesiynol ar Iechyd

**3.5** Argymhellion SEAC ar Ddiheintio Offer Meddygol

**4. SECTOR GWIRFODDOL :**

**4.1** Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol

**5. GWASANAETHAU PLANT :**

**5.1** Y Comisiynydd Plant

**5.2** Deddf Plant (Yn Gadael Gofal)

**6. HYBU A GWELLA IECHYD :**

**6.1** Dadl Lawn ar Hybu Iechyd

**6.2** Asesu’r Effaith ar Iechyd

**6.3** Rhaglen Imwneiddio rhag y ffliw

**6.4** Rhaglen Imwneiddio rhag clefydau Plentyndod

**6.5** Ymchwiliad Phillips – Clefyd y Gwartheg Gwallog (BSE)

**6.6** Panel Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Sylweddau

**7. ADNODDAU DYNOL :**

**7.1** Cynllunio’r Gweithlu

**7.2** Cyflenwi gwasanaethau i’r Cleifion

**7.3** Recriwtio a chadw staff

**7.4** Gweithwyr Cefnogi Gofal Iechyd

**7.5** Cyrff Adolygu Cyflogau

**7.6** Diddymu’r Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsys, Bydwragedd ac Iechyd (WNB)

**8. GOFAL CYMDEITHASOL :**

**8.1** Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (CSIW)

**8.2** Deddf Iechyd 1999 "Hyblygrwydd i Gydweithio"

**8.3** Deddf Cynhalwyr a Phlant Anabl 2000

**9. MATERION ERAILL :**

**9.1** Atgyfeirio Cleifion Canser gan Feddygon Teulu

**9.2** Rhaglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth – Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**9.3** Y Sefyllfa Ariannol

**9.4** Telefeddygaeth

**9.5** Cyngor Iechyd yr Undeb Ewropeaidd

**9.6** Pwyllgor Sgrinio HIV\AIDS

**9.7** Ad-drefnu Cyfrifoldebau Adrannol

# 1. MATERION STRATEGAETH

### 1.1 Strategaeth ar gyfer GIG Cymru (NHS Wales)

Daw'r Strategaeth gerbron y Pwyllgor ar 7 Chwefror a bwriedir cynnal trafodaeth lawn ar 13 Chwefror.

### 1.2 Canllawiau Gwasanaethau Cymdeithasol

Fe wnes lansio Canllawiau Cynllunio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 8 Rhagfyr.

### 1.3 Gofal Cychwynnol

**Gweithdy y tu allan i oriau arferol**

Ar 2 Tachwedd mynychodd cynrychiolwyr weithdy â phwyslais mawr ar gyfrannu a chymryd rhan, i edrych ar ddyfodol y ddarpariaeth Meddygaeth Teulu y tu allan i oriau arferol yng Nghymru. Roedd y siaradwyr yn cynnwys cynrychiolwyr o Healthcall, NHS Direct a'r tîm Adolygiad Cenedlaethol o Loegr. Bellach mae swyddogion y Cynulliad yn ystyried yr adborth gan y grwpiau trafod a byddant yn llunio adroddiad ynghylch y canfyddiadau yn fuan. Bydd yr adroddiad hwn yn ffurfio sail strategaeth gynhwysfawr ar gyfer cyllido, cynllunio a gwerthuso gwasanaethau y tu allan i oriau arferol yng Nghymru.

**Gweithgor Safleoedd Meddygaeth**

Mae'r grwp wedi gorffen ei ymchwiliadau i ba mor foddhaol yw safleoedd gofal cychwynnol ledled Cymru. Mae'r adroddiad terfynol, a fydd yn cynnwys rhestr o'r safleoedd ac argymhellion ar gyfer polisi y dyfodol, yn cael ei baratoi yn awr ac rwy'n disgwyl ei dderbyn yn fuan.

**Grwp Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin**

Mae’r GILl wedi bod yn gweithio gyda’r Kings Fund a’r Health Quality Service i ddatblygu safonau achrediad ar gyfer GILl, trwy gymryd rhan yn y broses achredu. Mae’n bleser gennyf eich hysbysu, yn dilyn blwyddyn o baratoi, bod yr HQS wedi dyfarnu archrediad i GILl Sir Gaerfyrddin, gyda 16 maes wedi’u cymeradwyo. Rhaid i mi longyfarch Sir Gaerfyrddin ar y llwyddiant unigryw ac allweddol hwn. Nid yn unig y maent yn cynrychioli’r GILl cyntaf yng Nghymru i dderbyn achrediad o’r fath; nhw yw’r grwp gofal cychwynnol cyntaf yn y DU i dderbyn cydnabyddiaeth o’r fath. Gobeithiaf gyflwyno eu tystysgrif iddynt yn ffurfiol yn y dyfodol agos.

**1.4 Gwasanaethau i’r Henoed**

Mae’r gwaith o ddatblygu Strategaeth ar gyfer Pobl Hn yng Nghymru yn mynd rhagddo yn awr. Mae Grwp Llywio dan gadeiryddiaeth Dr Brian Gibbons AM wrthi’n cael ei sefydlu; a bydd Tasgluoedd ar lefel swyddogion yn dilyn i ystyried y materion datganoledig a heb eu datganoli sy’n effeithio ar fywydau pobl hn. Bydd y Grwpiau yn cynnwys cynrychiolwyr o amrediad eang o fudiadau statudol, gwirfoddol ac annibynnol.

Y cylch gorchwyl drafft yw: "Llunio strategaeth ar gyfer iechyd a lles yr henoed yng Nghymru a fydd yn ymateb i’w anghenion, yn darparu gwasanaethau mewn modd amserol a phriodol ac yn hybu eu hannibynniaeth lle bynnag y bo’n bosibl".

Cyflwynir adroddiad ar y cynnydd wrth ddatblygu’r Strategaeth i’r Pwyllgor y flwyddyn nesaf.

Cyhoeddwyd y Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 21 Rhagfyr ac mae’n cynnwys amrediad o newidiadau deddfwriaethol sy’n effeithio ar gyllido gofal tymor hir ac sy’n dilyn ymateb Llywodraeth y DU i’r Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir. Cafodd y newidiadau hyn eu rhagfynegi yn y papur a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor ar 14 Medi.

Yn dilyn yr adroddiad i’r Pwyllgor ar Ymateb y Llywodraeth i’r Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir, cyflwynwyd y dasg o fwrw ymlaen â’r gwaith paratoadol ar ddarpariaeth gofal nyrsio am ddim yng Nghymru i’r Prif Swyddog Nyrsio. Mae’r Prif Swyddog Nyrsio yn cadeirio grwp sy’n cynrychioli amrediad eang o ddiddordebau, ac mae’r grwp hwn wedi cyfarfod yn rheolaidd. Maent wedi bod yn edrych yn arbennig ar ddichonoldeb datblygu un dull asesu ar draws Cymru ar gyfer cyflwyno gofal nyrsio am ddim yn ogystal ag ystyried materion perthynol fel hyfforddiant, cynllunio’r gweithlu, trefniadau gweithredol ac ati. Disgwylir y bydd y Grwp yn

adrodd yn ôl yn ystod y misoedd nesaf.

# 2. GWELLA IECHYD AC YMDRIN AG ANGHYDRADDOLDEBAU

## 2.1 Rhestrau Aros

Cyhoeddir y ffigyrau rhestrau aros ar gyfer mis Rhagfyr ar 24 Ionawr. Byddaf yn cyflwyno diweddariad ar y sefyllfa yn y cyfarfod.

Mae'r gwelliant yn y ffigyrau rhestrau aros dros y misoedd diwethaf yn adlewyrchu'r gwaith caled gan staff NHS yng Nghymru, ynghyd â'r £40 miliwn a ddyrannwyd gennyf ym mis Mai sy'n dechrau gwneud gwahaniaeth i gleifion Cymru. Mae Dr Brian Gibbons yn gyfrifol am fwrw ymlaen gyda'r Strategaeth Amseroedd Aros gyda'r NHS i gytuno ar dargedau amseroedd aros, gan ystyried blaenoriaethau clinigol a blaenoriaethau'r Cynulliad.

## 2.2 Pwysau Achosion Brys dros y Gaeaf

Rwyf wedi bod yn gweithio'n agos â'r NHS a'i bartneriaid i sicrhau fod y paratoadau ar gyfer y gaeaf yn eu lle, a chwrddais â'm Tïm Arbenigol ar 18 Rhagfyr i edrych ar Wasanaeth y tu allan i oriau arferol yn Nhaf Elai ac i drafod nifer o faterion yn ymwneud â'r paratoadau ar gyfer y gaeaf.

Yn ystod Rhagfyr a Ionawr rwyf wedi ymweld â nifer o sefydliadau NHS a gwasanaethau cymdeithasol a gwelais amrediad o fentrau ar waith. Hoffwn gymeradwyo'r rhai a gyfarfûm am eu gwaith caled a'u hymroddiad parhaus i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w cleifion.

Dechreuodd y broses o adrodd am y sefyllfa ar 5 Rhagfyr. Mae'n ofynnol i Ysbytai adrodd yn ôl yn ddyddiol o ran eu statws pwysau achosion brys ac yn wythnosol ynghylch amrediad ehangach o ddangosyddion, wedi eu dylunio i ddarparu rhybudd buan am gynnydd yn y galw a phwysau achosion brys. Sefydlwyd gwasanaeth 24 awr yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i reoli hyn. Byddaf yn cael fy hysbysu am y sefyllfa a bydd swyddogion yn monitro'r broblem gyda'r Ymddiriedolaeth nes bo'r sefyllfa yn dychwelyd i'r arfer. Mae'r wybodaeth ddyddiol ac wythnosol manwl yn cael ei adrodd wrth yr NHS ar Cymruweb a chyhoeddir crynodeb ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ni wnaeth Ymddiriedolaethau Cymru adrodd am gau unrhyw ysbytai dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd er gwaetha'r tywydd gwael. Fel arfer mae'r cyfnod yn union ar ôl y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn amser pan fo cynnydd yn nifer yr achosion brys a phrinder gwelyau yn deillio o hynny. Byddaf yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa ar lafar yn y cyfarfod Pwyllgor.

# 3. RHEOLEIDDIO AC AROLYGU ANSAWDD

## 3.1 Gwasanaethau Plant Conwy

Dengys adroddiad arolygu gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru y Cynulliad Cenedlaethol ar Wasanaethau Plant Conwy fod y rheolwyr yn y Cyngor wedi gweithio'n galed i wella'r gwasanaethau ers i arolygiadau ddechrau yn 1996 ac 1997. Ond mae'r arferion yn parhau'n anghyson ac mae'r adnoddau yn dynn iawn.

Canfyddiad yr adroddiad oedd bod rheolwyr wedi gwneud llawer i uno'r gwasanaethau plant, cynhyrchu polisïau a gweithdrefnau cyffredin, darparu gwasanaethau cydradd yn Gymraeg a Saesneg, a gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill a mudiadau gwirfoddol er budd y plant.

Ond daw'r adroddiad i'r casgliad hefyd fod y safonau yn amrywio'n ormodol o dda iawn i wael, a bod y staff wedi eu hymestyn i'r eithaf i gwrdd â'r galw cynyddol am wasanaethau. Mae'r adroddiad yn cynnwys un deg tri o argymhellion i'r Cyngor er mwyn sicrhau gwelliannau pellach. Mae'r Cyngor wedi ymateb trwy lunio cynllun gweithredu a chynyddu'r gyllideb.

Bydd yr Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwirio bod yr argymhellion yn yr adroddiad, a seiliwyd ar ymweliad â Chonwy yn 1999, yn cael eu gweithredu.

## 3.2 Rhaglen Gefnogi Hyfforddiant Gwasanaethau Cymdeithasol Personol

Dyma'r nawfed adroddiad ar y rhaglen hon a gynhyrchwyd gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae'n adrodd am y defnydd o fwy na £3.3m gan y rhaglen yn 1999-2000.

Mynychodd oddeutu 42,000 o staff neu ddefnyddwyr y gwasanaeth ddigwyddiadau hyfforddiant a ariannwyd gan y Rhaglen Cefnogi Hyfforddiant. Roedd hyn tua 5% yn is na'r nifer ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

Fodd bynnag, llwyddwyd i ennill mwy na 900 o gymwysterau gwaith cymdeithasol, gofal cymdeithasol a rheolaeth penodol yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn tua 50% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, ac mae'n parhau'r tueddiad cynyddol amlwg dros y blynyddoedd diwethaf.

## 3.3 Diweddariad ar y digwyddiad anffodus yn Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli

Cyfarfu swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol â phrif weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin i adolygu'r camau gweithredu a gyflwynwyd gan yr ymddiriedolaeth yn dilyn y digwyddiad anffodus yn Ysbyty'r Tywysog Philip flwyddyn yn ôl lle cafodd aren iach claf ei

thynnu yn hytrach na'r un wedi ei heintio. Yn union ar ôl y digwyddiad cafodd argymhellion Coleg Brenhinol y Llawfeddygon (RCS) ac ymchwiliad mewnol yr ymddiriedolaeth ei hun eu hymgorffori mewn cynllun gweithredu. Cafodd hwn ei fabwysiadu trwy'r ymddiriedolaeth gyfan a'i gwblhau yn awr (gyda mwyafrif y camau gweithredu wedi eu cyflwyno yn gyflym iawn ar ôl y digwyddiad). Yn bwysig iawn, sefydlwyd cyfundrefn o brofi a yw gweithredoedd yn cydymffurfio â'r cynllun, gydag arolygon o holl adrannau theatr a chanolfannau achosion dydd yr ymddiriedolaeth yn cael eu hystyried yn erbyn y cynllun gweithredu bob chwe mis. Cyflawnwyd y set gyntaf o arolygon yn yr Hydref, a'r cyfan yn llwyddiannus. Bydd canlyniadau'r ail set yn cael eu cyflwyno gerbron cyfarfod mis Chwefror bwrdd yr ymddiriedolaeth a fydd yn llofnodi bod y cynllun gweithredu wedi ei gyflawni, cyn belled nad oes unrhyw ganlyniadau gwrthwynebus yn deillio o'r arolygon. Bydd y profion cydymffurfio yn parhau.

Mae'r digwyddiad yn parhau i gael ei ymchwilio gan yr heddlu, ac mae dau aelod o staff yn parhau i fod wedi eu gwahardd o'u gwaith nes y cyflawnir yr ymchwiliad ac y gall y broses ddisgyblu barhau.

**3.4 Adolygiadau Pum Mlynedd Saith Corff Ymgynghorol Cyhoeddus Proffesiynol ar Iechyd**

Cyhoeddoedd Edwina Hart a minnau ddechrau'r adolygiadau pum mlynedd ar saith corff ymynghorol cyhoeddus proffesiynol ar iechyd, ar y mewnrwyd, ar 21 Rhagfyr 2000.

Y cyrff yw:

- Pwyllgor Deintyddol Cymru
- Pwyllgor Meddygol Cymru
- Pwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru
- Pwyllgor Optometrig Cymru
- Pwyllgor Fferyllol Cymru
- Pwyllgor Ymgynghorol Gwyddonol Cymru

Er trylwyredd bydd y Fforwm Cyd-broffesiynol ar Iechyd a Lles yn cael ei adolygu yr un pryd.

Mae mwy na phum mlynedd ers i bedwar o'r cyrff uchod gael eu hadolygiad diwethaf, ac ar gyngor Prif Swyddog Meddygol a Phrif Swyddog Nyrsio'r Cynulliad, rydym wedi penderfynu y dylid adolygu'r holl gyrff ar yr un pryd.

Gellir cael rhagor o fanylion yn adran Datganiadau'r Cabinet ar y mewnrwyd. Bydd aelodau'r pwyllgor yn gweld yr adroddiadau, ar ffurf drafft, yn fuan yn y Gwanwyn.

**3.5 Argymhellion SEAC ar Ddiheintio Offer Meddygol**

Cyhoeddwyd nifer o fesurau i leihau'r achosion o gael eich heintio mewn ysbyty a'r risg posibl o drosglwyddo'r CJD math newydd trwy lawdriniaethau yn Lloegr yn ddiweddar. Cyflawnir yr un gwaith ag a gyflawnwyd yn Lloegr yng Nghymru a bydd archwiliad sylweddol i'r trefniadau diheintio a steryllu yn yr NHS, yn cynnwys y sector gofal cychwynnol, yn dechrau ym mis Chwefror. Bydd yr archwiliad yn gwirio pa drefniadau a weithredir yn awr – a chydymffurfiaeth â'r trefniadau hynny – i ddiheintio a steryllu offer meddygol. Bydd dadansoddiad y canlyniadau yn dylanwadu ar gynlluniau i godi'r safonau. Hefyd rydym yn bwriadu cyflwyno offer llawdriniaethol i'w defnyddio unwaith yn unig mewn llawdriniaethau i dynnu tonsilau yn unol â'r un argymhellion gan SEAC (Spongiform Encephalopathy Advisory Committee). (Gweler adran 6.5 ar Ymchwiliad Phillip – Clefyd y Gwartheg Gwallog (BSE) hefyd).

# 4. SECTOR GWIRFODDOL :

**4.1 Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol**

Cyfarfu Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol yng Nghaerdydd ar 15 Rhagfyr. Roedd yr agenda yn cynnwys rownd Pennu Cyllideb y Cynulliad, cynnig ar gyfer Côd Ymarfer wrth weithio gyda mudiadau gwirfoddol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, cynyddu'r gallu yn y sector gwirfoddol ac effaith y Biwro Cofnod Troseddau. Bu'r drafodaeth ar gynyddu gallu yn arbennig o ddefnyddiol a bydd yn ein cynorthwyo i ddatblygu cynlluniau ar gyfer dyrannu adnoddau er mwyn cynyddu gallu yn ystod y misoedd i ddod.

# 5. GWASANAETHAU PLANT :

**5.1 Y Comisiynydd Plant**

Dewiswyd Peter Clarke, Cyfarwyddwr Childline Cymru, i'w benodi i swydd y Comisiynydd.

Derbyniodd Mesur Comisiynydd Plant Cymru, a fydd yn ehangu sgôp pwerau'r Swyddfa, ei Ail Ddarlleniad yn Nhy'r Cyffredin ar 16 Ionawr. Roedd y cynnig a basiwyd yn dilyn ein dadl lawn ar Araith y Frenhines ar 19 Rhagfyr yn gofyn i'r Pwyllgor hwn adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar y Mesur erbyn 13 Chwefror. Ysgrifennais at holl aelodau'r Pwyllgor ar 12 Rhagfyr yn nodi crynodeb o effeithiau'r Mesur a bod y Mesur a'i Nodiadau Esboniadol yn Llyfrgell y Cynulliad ac ar y wefan Seneddol. Hoffwn wahodd aelodau i ddefnyddio'r drafodaeth ar fy adroddiad

misol i fynegi eu barn am y Mesur fel y gall y Pwyllgor adrodd yn ôl yn unol â’r cais.

Mae gwaith mewn llaw ar reoliadau’r Cynulliad i sefydlu a nodi swyddogaethau a phwerau craidd y Comisiynydd o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Cyflwynir y rheoliadau drafft gerbron y Pwyllgor yn y Gwanwyn.

### 5.2 Deddf Plant (Yn Gadael Gofal)

Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ddiwedd fis Tachwedd, rhyw chwe mis yn ddiweddarach nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Felly doedd fawr ddim amser i baratoi ar gyfer cyflwyno’r ddeddf ar 1 Ebrill 2001 fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Byddai wedi bod yn ofynnol rhoi deddfwriaeth eilaidd y Cynulliad ar gwrs carlam, a mynegodd yr awdurdodau lleol bryderon na chawsant ddigon o amser i baratoi. Mynegwyd pryderon tebyg yn Lloegr. Penderfynwyd gohirio gweithredu’r ddeddf am chwe mis, tan 1 Hydref 2001, ac ysgrifennais at yr awdurdodau lleol a phartïon eraill â diddordeb ar 11 Rhagfyr i’w hysbysu am y penderfyniad hwnnw. Cafodd ei groesawu’n fawr.

Nawr bydd deddfwriaeth eilaidd a chanllawiau yn cael eu paratoi erbyn yr haf, gan ganiatáu amser ar gyfer ymgynghoriad. Ar 14 Rhagfyr cynhaliodd y Cynulliad Cenedlaethol gynhadledd a gweithdai ar gyfer rheolwyr gwasanaethau cymdeithasol ac addysg awdurdodau lleol, cynrychiolwyr awdurdodau iechyd a chynrychiolwyr mudiadau gwirfoddol, i drafod y canllawiau drafft dechreuol. Caiff y canllawiau eu datblygu gyda chymorth y tasgluoedd sy’n cynnwys cynrychiolwyr y prif grwpiau â diddordeb, yn cynnwys pobl ifanc. Bydd awdurdodau lleol yn cael eu hannog i wneud paratoadau cyn gweithredu’r ddeddfwriaeth yn llawn ac i ddefnyddio rhai o’r adnoddau canolog a ddosberthir iddynt ar gyfer Plant yn Gyntaf i wneud hyn. Gofynnir i’r awdurdodau lleol nodi eu cynlluniau ar gyfer gweithredu’r ddeddfwriaeth yn eu ceisiadau am arian.

## 6. HYBU A GWELLA IECHYD :

### 6.1 Dadl Lawn ar Hybu Iechyd

Cynhaliwyd y ddadl lawn ar ein strategaeth hybu iechyd cenedlaethol a’r cynllun rhaglen weithredu ar 30 Tachwedd 2000. Pasiwyd y cynnig a’r gwelliannau. Mae un rhan y cynnig yn annog Pwyllgorau Pwnc eraill y Cynulliad i ystyried effeithiau eu polisïau a’u rhaglenni ar iechyd pobl. Mae hwn yn gam pwysig tuag at harneisio potensial meysydd polisi eraill i gyfrannu tuag at wella iechyd a datblygu dull integredig y Cynulliad o ymdrin â pholisïau a rhaglenni ymhellach. Byddwn yn dymuno dychwelyd at hyn i ystyried pa weithredu sy’n digwydd o ganlyniad i basio’r cynnig.

### 6.2 Asesu’r Effaith ar Iechyd

Cynhaliwyd y ddau weithdy datblygol cyntaf ar gyfer y sector gwirfoddol ym mis Tachwedd yng ngogledd Cymru ac Abertawe. Cafodd y digwyddiadau, a fynychwyd gan dros 75 o gynrychiolwyr mudiadau gwirfoddol a chymunedol, eu derbyn yn dda. Yn ychwanegol at ddarparu trosolwg o asesu'r effaith ar iechyd i'r mudiadau, llwyddodd y digwyddiad i amlygu amrediad o faterion sy'n berthnasol i ddatblygu'r defnydd o asesiadau effaith ar iechyd gan y sector gwirfoddol.

**6.3 Rhaglen Imwneiddio rhag y ffliw**

Fel yr addewais rwyf wedi anfon gwybodaeth i holl Aelodau'r Cynulliad ar gynnydd y rhaglen a'r cyfraddau imwneiddio. Mae meddygon teulu wedi bod yn araf iawn yn dychwelyd eu ffigyrau felly ar hyn o bryd dim ond amcangyfrifon bras sydd gennym. Rhagwelir y byddwn yn gallu darparu set o ffigyrau mwy cadarn erbyn mis Mawrth. Eleni rhoddwyd mwy o bwyslais ar sefydlu systemau a fydd yn cyflenwi gwelliannau i effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr ymgyrchoedd imwneiddio. Yn y gwanwyn bydd swyddogion yn defnyddio dadansoddiad y rhaglen eleni i gynllunio ar gyfer y gaeaf nesaf.

**6.4 Rhaglen Imwneiddio rhag clefydau Plentyndod**

Dechreuodd ymchwiliad i edrych ar y modd y cyflenwir rhaglenni imwneiddio plant yng Nghymru. Y maes cyntaf i'w drafod yw'r brechiad MMR, yn erbyn y frech goch, clwy'r pennau a rwbela, ac mae'r Cynulliad wedi prynu 'llyfryn chwalu'r mythau' a ddatblygwyd gan Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru i'w ddosbarthu ledled Cymru. Rydym yn datblygu dulliau ar gyfer darparu gwell gwybodaeth i rieni i'w galluogi i wneud penderfyniadau a'u rhybuddio am beryglon clefydau plentyndod, fel y frech goch a'r pâs.

**6.5 Ymchwiliad Phillips – Clefyd y Gwartheg Gwallgo (BSE)**

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn edrych ar ganfyddiadau Ymchwiliad Phillips i glefyd y gwartheg gwallgo ac a wnaed gwelliannau digonol ai peidio ers y cyfnod dan ystyriaeth yn yr ymchwiliad. Mae'r Pwyllgor wedi cwrdd â theuluoedd y dioddefwyr a chynrychiolwyr y *CJD Support Network* eisoes. Mae'r Pwyllgor yn trafod y trefniadau ar gyfer darparu cyngor gwyddonol â chadeirydd SEAC, a'r mesurau sy'n bodoli yn awr ar gyfer gwarchod y gadwyn fwyd dynol gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd a chynrychiolwyr y Cyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd.

Bellach mae'r Pwyllgor yn edrych ar y trefniadau ar gyfer gofalu am y rhai sy'n dioddef o vCJD, ar y cyd â Chydlynydd Gofal yr Uned CJD a chynrychiolwyr o'r NHS a'r Gwasanaethau

Cymdeithasol. Mae pecyn gofal i'w gynnig i ddioddefwyr CJD yn cael ei ddatblygu, wedi ei seilio'n agos ar brofiadau teuluoedd dioddefwyr vCJD.

### 6.6 Panel Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Sylweddau

Sefydlwyd Panel Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol ar Gamddefnyddio Sylweddau fel grwp ymgynghorol ad hoc ym mis Gorffennaf 1999. Rwyf wedi penderfynu y dylid gosod y Panel ar sylfaen sefydlog fel Corff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, Haen 1 (h.y. un â swyddi di-dâl) yn unol â'r Côd Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus. Cylch gorchwyl y Panel fydd: 'Cynghori ar weithredu Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru a materion eraill yn ymwneud â Chamddefnyddio Sylweddau, yn ôl y gofyn. I gyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn ac adrodd yn ôl i Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru'.

## 7. ADNODDAU DYNOL :

### 7.1 Cynllunio'r Gweithlu

Mae'r Grwp Datblygu'r Gweithlu wedi cyfarfod am y tro cyntaf. Tasg aelodau'r grwp yw ymgynghori â'u cydweithwyr a chyflwyno cynigion ar gyfer y ddogfen adolygu cynllunio gweithlu Cymru erbyn ganol mis Ionawr. Ar 18 Ionawr cynhelir gweithdy gyda'r holl Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd i drafod a chytuno ar broses cynllunio gweithlu gynhwysfawr ar gyfer 2001 fel system interim nes y cwblheir yr adolygiad llawn.

### 7.2 Cyflenwi gwasanaethau i Gleifion

Er mwyn symud ymlaen gydag amcanion allweddol y Strategaeth Adnoddau Dynol, *'Cyflenwi gwasanaethau i Gleifion',* rydym wedi sefydlu nifer o

is-grwpiau. Daw'r cynrychiolwyr o Fforwm Parnteriaeth GIG Cymru a'r grwp Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol.

Cyfarfu grwp Recriwtio a Chadw Staff ar 30 Tachwedd, cyfarfu'r grwp Iechyd a Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol ar 1 Rhagfyr a chyfarfu'r grwp Gweithredu a Monitro'r Strategaeth ar 15 Rhagfyr. Pwrpas y cyfarfodydd dechreuol hyn oedd sefydlu rôl a chylch gwaith pob grwp, y cylchoedd gorchwyl ac amserlen cyfarfodydd. Mae grwp Mesur Agweddau Staff i fod i gyfarfod ar 15 Ionawr. Mae'n bosibl y caiff grwpiau eraill ei sefydlu os a phan fo angen.

### 7.3 Recriwtio a Chadw Staff

Cyfarfu Is-grwp Recriwtio a Chadw Staff y Fforwm Partneriaeth am y tro cyntaf a bydd yn cyfarfod yn rheolaidd i ddatblygu pwyntiau gweithredu allweddol. Rydym wedi sefydlu llinell ffôn arbennig ar gyfer cyn staff sy'n ystyried dychwelyd i'r gwasanaeth iechyd. Cafodd hwn ei hyrwyddo dros y Nadolig.

Mae cyrsiau Dychwelyd i Nyrsio yn cael eu cynnal ar gyfer nyrsys gan wahanol golegau ledled Cymru ar y cyd ag Ymddiriedolaethau lleol er mwyn cynnig cefnogaeth i nyrsys sy'n dymuno diweddaru eu sgiliau cyn dychwelyd i nyrsio. Comisiynwyd rhaglen datblygiad staff tymor hir i gefnogi'r NHS wrth gyflenwi'r Strategaeth Adnoddau Dynol i NHS Cymru gan Goleg Staff NHS ac NHS Performance.

Mae data am swyddi gweigion yn cael ei gasglu gan gyflogwyr ond dim ond yn araf iawn mae'r wybodaeth yn ein cyrraedd. Mae llenyddiaeth NHS Cymru Corfforaethol yn cael ei baratoi i farchnata'r cyfleoedd cyflogaeth yn yr NHS yng Nghymru a thu hwnt.

**7.4 Gweithwyr Cefnogi Gofal Iechyd**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi sefydlu Menter Gweithwyr Cefnogi Gofal Iechyd i gynnig cymorth ariannol i weithwyr cefnogi gofal iechyd sy'n dymuno dilyn cwrs hyfforddiant nyrsio cyn-cofrestru. Ar gyfer pob derbyniad myfyrwyr (ym mis Ebrill a mis Medi bob blwyddyn), derbynia'r Ymddiriedolaethau gyflog un gweithiwr gofal iechyd (hyd at uchafswm o £15,000) i gefnogi a chynnal un gweithiwr neu ei rannu rhwng nifer o weithwyr i'w cynorthwyo'n ariannol trwy gyrsiau nyrsio cyn-cofrestru. Er mwyn bod yn gymwys i'w hystyried ar gyfer hyn, mae'n rhaid i'r ymgeiswyr:

- gael eu cyflogi mewn rôl cefnogi nyrsio a bod wedi eu derbyn ar gwrs

cyn-cofrestru tair blynedd.

- feddu ar o leiaf 12 mis o brofiad gwaith gyda'u cyflogwr presennol a bod yn barod i ymrwymo i barhau eu cyflogaeth gyda'r Ymddiriedolaeth am isafswm o ddwy flynedd ar ôl cofrestru.

Hyd yma mae'r cynllun wedi galluogi 60 o Weithwyr Cefnogi Gofal Iechyd i ddilyn cwrs nyrsio cyn-cofrestru, gyda chyllid o fwy na £500,000 ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bwriedir cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r cynllun yn fuan y flwyddyn nesaf.

**7.5 Cyrff Adolygu Cyflogau**

Cyhoeddwyd codiadau cyflog i feddygon a nyrsys cyn y Nadolig am y tro cyntaf. O 1 Ebrill bydd nyrsys a phroffesiynau sy'n gysylltiedig â meddygaeth yn derbyn cynnydd o 3.7% tra

bydd rhai staff ar raddfa uwch yn derbyn rhwng 5.2% a 5.7%. Argymhellwyd cynnydd o 3.9% i feddygon a deintyddion ond bydd meddygon teulu yn derbyn ychwanegiad bychan at y taliadau hynafedd i roi ffigwr o 4%.

**7.6 Diddymu’r Bwrdd Cenedlaethol Cymreig dros Nyrsys, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd (WNB)**

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 29 Mehefin 2000, derbyniodd yr aelodau argymhellion ynghylch y swyddogaethau y gallai corff Cymreig newydd ei gyflawni unwaith i’r Bwrdd Cenedlaethol Cymreig gael ei ddiddymu ar 31 Awst 2001. Hefyd cytunodd y Pwyllgor ar ffurf posibl y corff newydd. Datgelodd cyngor cyfreithiol diweddarach na fyddai’r opsiwn a ddewiswyd yn gallu cyflawni’r swyddogaethau angenrheidiol. Y prif opsiwn wrth gefn yw creu Corff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

Derbyniasom gyngor na chaiff y Cynulliad sefydlu Corff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad cyn derbyn cais gan Nursing Midwifery Council newydd y DU, a fydd yn cael ei sefydlu ar 1 Medi 2001, i gyflawni’r gwaith ar ei ran. Yn y cyfamser, mae Swyddfa’r Cyngor Cyffredinol wedi gofyn i’r Adran Iechyd gynnwys y pwer cyffredinol i’r Cynulliad sefydlu Corff Cyhoeddus dan nawdd y Cynulliad yn y Gorchymyn.

Rydym wedi gofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch a oes gan y Cynulliad y pwerau i sefydlu Corff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad i ymgymryd â swyddogaethau Bwrdd Nyrsio Cymru na fydd yn trosglwyddo i’r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac a fyddai modd gofyn i’r Corff Cyhoeddus, yn ddiweddarach, ymgymryd â rhai o’r swyddogaethau hynny a fydd yn trosglwyddo i’r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Os ymddengys bod rhagor o rwystrau, un dewis arall fyddai creu Asiantaeth Weithredol y Cynulliad. Byddai hyn yn sicrhau bod swyddogaethau allweddol Bwrdd Nyrsio Cymru yn cael eu cynnal yng Nghymru ar ôl diddymu’r Bwrdd. Fodd bynnag, rydym wedi ceisio osgoi’r opsiwn hwn yn flaenorol, gan na fyddai’r swyddogaethau yn gweddu’n dda nac wedi ei ymddihatru’n ddigonol oddi wrth y Cynulliad. Os nad oes dewis arall, o gofio’r cyfyngiadau amser o ran sefydlu Corff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, yna gallwn barhau i weithio tuag at yr amcan tymor hir o sefydlu Corff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad unwaith y bo’r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi penderfynu ar ba mor hir y gellir cyflenwi’r swyddogaethau dan sylw yn y tymor hir.

# 8. GOFAL CYMDEITHASOL :

### 8.1 Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru

Bydd yr Arolygiaeth Safonau Gofal yn cael ei sefydlu fel rhan o'r Cynulliad ar 1 Ebrill 2002. Mae'r ymgynghorwyr a benodwyd i weithio ar y prosiect (Hedron) wedi cynhyrchu eu hadroddiad interim ar weithredu'r rhaglen a byddant yn cwblhau adroddiad terfynol erbyn diwedd mis Mawrth. Bydd papur yn amlinellu'r cynigion ar gyfer strwythur rhanbarthol yn cael ei roi gerbron Aelodau'r Cynulliad yn y flwyddyn newydd.

Cynhaliwyd cynadleddau ar gyfer y staff Rheoleiddio a fydd yn trosglwyddo i'r Cynulliad yn 2002 yng Nghaerdydd, Caerfyrddin a Llandudno ym mis Tachwedd. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â Phenaethiaid yr Unedau Arolygu. Bydd cyfarfodydd â chynrychiolwyr y cyflogwyr, yr undebau a staff yn dechrau yn y flwyddyn newydd.

Bwriedir lansio llythyr newyddion a gwefan ym mis Ionawr.

Hefyd ym mis Ionawr dechreuir ar y broses o gaffael cronfa ddata Rheoleiddio ac Arolygu ar gyfer Cymru gyfan.

Mae gwybodaeth am y rhaglen ddeddfwriaethol yn destun adroddiad ar wahân i'r Pwyllgor.

### 8.2 Deddf Iechyd 1999 "Hyblygrwydd i Gydweithio".

Mae crynodeb o'r trafodaethau a chanfyddiadau'r Gynhadledd Hyblygrwydd i Gydweithio (Llandrindod ar 29 Tachwedd) yn cael ei ddrafftio'n derfynol ar hyn o bryd a dylai gael ei gyhoeddi a'i osod ar y wefan erbyn diwedd Ionawr.

Mae swyddogion yn gweithio ar raglen ymchwil monitro a gwerthuso hyblygrwydd a chydweithio rhwng yr NHS a llywodraeth leol.

### 8.3 Deddf Cynhalwyr a Phlant Anabl 2000

Ddiwedd Rhagfyr 2000 dechreuais ymgynghoriad ar y rheoliadau a'r canllawiau ar gyfer gweithredu Deddf Cynhalwyr a Phlant Anabl 2000 yng Nghymru. Bydd yr ymgynghoriad yn para tan 30 Mawrth: mae copïau o'r papurau ymgynghorol wedi eu rhoi yn Llyfrgell y Cynulliad.

# 9. MATERION ERAILL :

## 9.1 Atgyfeirio Cleifion Canser gan feddygon teulu

Yn ystod trafodaeth y Pwyllgor ar fy adroddiad misol ar 25 Hydref (HSS-18-00 t.1), gofynnwyd am wybodaeth ar nifer y cleifion y credir bod canser arnynt sy’n cael eu hatgyfeirio gan feddygon teulu. Roedd hyn yn ymwneud â pharagraff 27 rhan 1 yr adroddiad hwnnw, a oedd yn hysbysu’r Pwyllgor am adolygu ac ail-gyhoeddi y safonau gofal isafswm ar gyfer y prif ganserau i’r NHS.

Os oes amheuaeth bod claf yn dioddef o ganser, dylai’r meddyg teulu ofyn am apwyntiad brys gyda’r arbenigwr canser perthnasol ac anfon gwybodaeth am y claf i’r arbenigwr. Ar hyn o bryd mae’r penderfyniad terfynol ar a oes angen gweld y claf ar frys yn nwylo’r arbenigwr canser wedi ei seilio ar wybodaeth a dderbyniwyd gan y meddyg teulu ac, os yw’n briodol, gwneir apwyntiad buan.

Dylai’r holl feddygon teulu yng Nghymru fod wedi eu hysbysu gan eu hysbytai lleol pwy yw eu timau/arbenigwyr canser, neu am bwynt cyswllt penodol i sicrhau bod cais am atgyfeirio brys yn cyrraedd yr arbenigwr cywir. Bydd canllawiau i feddygon teulu ar gyfer atgyfeirio cleifion yr amheuir eu bod yn dioddef o ganser yn mynd trwy broses peilot yng Nghymru yn ystod y misoedd nesaf, yn dilyn ymgynghoriad rhwng y gwasanaeth gofal cychwynnol a’r arbenigwyr canser perthnasol i weld pa mor gadarn ydynt a beth fyddai’r effaith ar weithgareddau’r ysbytai. Yn arferol ni ddylai cleifion y tybir eu bod yn dioddef o ganser gael eu cyfeirio at arbenigwr ac eithrio arbenigwr canser ac, os digwydd hynny, disgwylir y bydd yr atgyfeirio rhyng-ymgynghorydd priodol yn digwydd.

## 9.2 Rhaglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth – Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ar 6 Rhagfyr 2000 nododd y Frenhines raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth ar gyfer y sesiwn nesaf. Cyhoeddodd ei haraith y byddai’r rhaglen yn cynnwys Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gyda’r nod o gyflenwi cynigion yn cyfateb i’r Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir i’r Henoed a’r ymrwymiad i’r NHS a amlinellwyd yn y Cynllun NHS.

Nod y Mesur yw gweithredu cynigion mewn ymateb i’r Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir i’r Henoed a’r ymrwymiad i’r NHS a amlinellir yn y Cynllun NHS a "Dyfodol Iachach i Gymru". Cyhoeddwyd y Mesur ar 21 Rhagfyr, yn dilyn ei gyflwyno yn Nhy’r Cyffredin ar 20 Rhagfyr.

Yn dilyn cymeradwyo’r cynnig a gynigiwyd yn y ddadl lawn ar Araith y Freinhines ar 19 Rhagfyr, adroddodd y Cynulliad y byddai angen i’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithaol ystyried y darpariaethau ar gyfer Cymru ymhellach a thrafod sut y byddai’r Cynulliad yn dymuno defnyddio’r pwerau newydd hyn. Gofynnir i’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adrodd yn ôl i’r Cynulliad erbyn 13 Chwefror 2001.

Ar ddiwrnod cyhoeddi'r mesur, ysgrifennais at gydweithwyr yn y Cabinet a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i amlinellu prif ddarpariaethau'r Mesur a'u heffaith ar Gymru. Mae fy swyddogion wedi ysgrifennu at y prif rai sy'n ymwneud ag Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru hefyd.

Cafwyd ail ddarlleniad y Mesur ar 10 Ionawr 2001. Bydd y rhai ohonoch a fu'n dilyn y ddadl wedi nodi y cafodd y darpariaethau yn ymwneud â chynrychiolaeth cleifion eu trafod am gyfnod maith. Fel y gwyddoch, roedd y Mesur yn cynnig dileu Cynghorau Iechyd Cymuned yn Lloegr. Fodd bynnag, rwyf wedi gwneud darpariaeth yn y Mesur i ganiatáu i'r Cynulliad wneud ei benderfyniadau ei hun ynghylch dyfodol y Cynghorau Iechyd Cymuned yng ngoleuni'r casgliadau sy'n dod i'r fei o'r broses ymgynghori bresennol.

Dechreuodd y cam Pwyllgor ar 18 Ionawr, i ystyried a thrafod newidiadau eraill i'r Mesur. Mae fy swyddogion yn dilyn y broses yn fanwl er mwyn sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu.

Mae'r Mesur hefyd yn ein galluogi i ddechrau, mewn partneriaeth â Lloegr, ar y rhannau hynny o'r Mesur a fyddai'n sicrhau gwasanaeth teg, er enghraifft, y ddarpariaeth ar gyfer gwell diogelwch y cyhoedd o ran defnyddio gwybodaeth am gleifion yn y modd cywir.

Yr un mor bwysig yw'r angen am swm priodol o ddisgresiwn yng Nghymru o ran dechrau ar y darpariaethau eraill, yn enwedig o gofio am Strategaeth GIG Cymru a gyhoeddir yn fuan, er enghraifft o ran darpariaeth gwasanaethau fferyllol a sefydlu Ymddiriedolaethau Gofal.

Mae fy swyddogion wedi cydweithio'n galed â'u cyd-swyddogion i sicrhau cydbwysedd rhwng y ddau, a byddant yn parhau i wneud hynny wrth i'r Mesur fynd trwy'r Senedd.

**9.3 Y Sefyllfa Ariannol**

Mae'r sefyllfa ariannol eleni yn debygol o newid gyda'r NHS yn rhagfynegi gorged incwm a gwariant net o £7.9 miliwn. Mae nifer o faterion allweddol a fydd yn effeithio ar y sefyllfa yn y pen draw yn cynnwys y pwysau dros y gaeaf a chlirio'r prisio presgripsiwn sydd wedi ôl-gronni. Yn ddiamau cynorthwywyd y sefyllfa gan beth o'r £38 miliwn o gyllid na fydd yn cael ei ailadrodd a ddarparwyd i'r NHS yn y dyraniad eleni yn cynnwys y pecyn £24 miliwn ar gyfer lleihau'r ddyled a'r gwarged.

Mae'r sefyllfa tanseiliol eleni (hynny yw, ac eithrio'r eitemau incwm a gwariant na fyddant yn cael eu hailadrodd) yn agosach at ddiffyg o £10 miliwn sy'n welliant ar y diffyg o £18.6 miliwn yn 1999-2000. Mae hefyd yn welliant sylweddol o'i gymharu â'r sefyllfa archwiliedig yn 1998-99 a oedd yn dangos diffyg yn y flwyddyn o £21.7 miliwn.

Mae'n hanfodol fod yr NHS yn cynnal rheolaeth ariannol llym, hyd yn oed yn yr hinsawdd

ariannol hon sy’n gwella, os yw blaenoriaethau’r Cynulliad i’w gwireddu. Mae arwyddion cynnar o bwysau ariannol newydd yn dod o rannau o’r gymuned NHS y bydd angen eu datrys ar fyrder i gadw’r Cynulliad ar y trywydd cywir i gyflenwi’r targedau GwellCymru.com, sef cael gwared ar ddiffyg gweithredol net cyrff NHS erbyn Mawrth 2003.

Fel yr adroddwyd eisoes, mae Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i ragfynegi tanwariant ariannol ar gyfer y flwyddyn sy’n adlewyrchu’r proffil gwario disgwyliedig am y flwyddyn yn erbyn ymrwymiadau’r rhaglen. Saif y tanwariant ar £18.8 miliwn ar hyn o bryd (£14 miliwn yn ymwneud ag Iechyd a £4.8 miliwn yn perthyn i’r gwasanaethau cymdeithasol). Byddant yn destun ceisiadau i gario’r tanwariant hyn trosodd i flynyddoedd y dyfodol i gwrdd â’r ymrwymiadau wrth iddynt godi.

**9.4 Telefeddygaeth**

Mae trefniadau yn mynd rhagddynt i drefnu sesiwn bwyllgor i ganolbwyntio ar Delefeddygaeth. Cafodd amlinelliad drafft ar gyfer y sesiwn ei ystyried. Rydym yn disgwyl am gadarnhad am reolau sefydlog y Pwyllgor gan secretariat y Pwyllgor o ran y lleoliad a’r fformat.

**9.5 Cyngor Iechyd yr Undeb Ewropeaidd**

Mynychais gyfarfod Gweinidogion Iechyd yr Undeb Ewropeaidd yn y Cyngor Iechyd ar 14 Rhagfyr lle bum yn anerch ar iechyd a maethiad ar ran y DU. Bydd penderfyniad y Cyngor ar iechyd a maethiad yn cael ei fwrw ymlaen gan Sweden, a fydd yn Llywyddu rhwng mis Ionawr a mis Mehefin. Cyfarfûm â’r swyddog o Sweden am ennyd ar ôl cyfarfod y Cyngor a buom yn trafod digwyddiad y mae Sweden yn ei gynnal yn fuan y flwyddyn nesaf ar bobl ifanc ac alcohol. Rwy’n disgwyl derbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfod anffurfiol rhwng Gweinidogion UE i’w gynnal yn ystod y digwyddiad hwn.

Rydym wedi datblygu perthynas weithiol dda â’r Adran Iechyd ar faterion iechyd UE ac mae’r ffaith i mi fynychu’r Cyngor gyda Gisela Stuarty,

Is-ysgrifennydd Seneddol yn yr Adran Iechyd, yn adlewyrchu hyn. Mae agenda’r UE yn berthnasol iawn i’r Pwyllgor hwn o ran goblygiadau datblygiadau polisi’r UE. Mae ymagwedd y Cynulliad tuag at wella iechyd a lles a’r modd yr ydym wedi datblygu asesiadau’r effaith ar iechyd, er enghraifft, yn ffitio’n dda gyda’r cyfeiriad cyffredinol ar draws Ewrop.

Rwyf wedi darparu rhestr o eitemau agenda’r Cyngor Iechyd fel atodiad i’r adroddiad hwn. Bydd y rhestr yn ddefnyddiol fel fframwaith ar gyfer yr ymweliad â Brwsel gan ddirprwyaeth o Aelodau’r Pwyllgor hwn.

## AGENDA AMLINELLOL

- Cynnig ar gyfer Penderfyniad gan Senedd a Chyngor Ewrop i ymestyn rhaglenni Gweithredu Cymunedol penodol ym maes iechyd y cyhoedd a fabwysiadwyd gan benderfyniadau rhif 645/96/EC, rhif 646/96/EC, rhif 647/96/EC, rhif 102/97/EC, rhif 1400/97/EC a rhif 1296/1999/EC a diwygio’r penderfyniadau hynny.

- Cynnig ar gyfer penderfyniad gan Senedd a Chyngor Ewrop i fabwysiadu rhaglen Gweithredu Cymunedol ym maes iechyd y cyhoedd (2001-2006)

- Penderfyniad y Cyngor ar iechyd a maethiad

- Tybaco

i. Adolygu deddfwriaeth rheoleiddiol a gweinyddol y

gwladwriaethau sy’n aelodau o ran hysbysebu cynnyrch tybaco;

ii. Y Cyfarwyddyd labelu tybaco;
iii. Confensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco

- Penderfyniad y Cyngor ar Feddyginiaethau Paediatreg

- Cynllun Gweithredu "e-Ewrop 2002 – Cymdeithas Wybodaeth i Bawb" (cyflwynydd – Comisiynydd Liikanen)

- Y Cyfarwyddyd Treialon Clinigol

- Clefydau trosglwyddadwy

i. Gweithredu’r Rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer Gorchuchwylio ac

Ymateb yn gyflym;

ii. Clefyd y Gwartheg Gwallgo (BSE) – Sefyllfa Epidemiolegol

nvCJD;

- Cyflwyno testunau newydd gan y Comisiwn

i. Argymhelliad ar Alcohol ac iechyd Pobl Ifanc

(ii) Cynnig y Cyfarwyddyd Gwaed

- Y dull Ewropeaidd o ymdrin â threialon clinigol yn ymwneud ag ymchwil AIDS.

**9.6 Cynhadledd Sgrinio HIV\AIDS**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal Cynhadledd Sgrinio HIV\AIDS yn Arena Rhyngwladol Caerdydd ar 8 Chwefror 2001. Bydd y Gynhadledd yn caniatáu i fydwragedd ac eraill drafod goblygiadau'r pwnc, datblygu strategaethau arfer dda ac ystyried yr agweddau diwylliannol a allai effeitiho ar fynediad at y gwasanaeth.

**9.7 Ad-drefnu Cyfrifoldebau Adrannol**

Ar 8 Ionawr gwnaed newidiadau yn y dull o reoli polisi ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai, Adfywio Cymunedau, Lleihau Troseddu a'r Sector Gwirfoddol yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Gwnaed y newidiadau er mwyn canolbwyntio'r ymdrechion ar feysydd polisi arwahanol a rhyng-berthynol, er mwyn sicrhau gwell ffocws wrth ddatblygu polisi, a chwtogi'r llinellau cyfathrebu rhwng Gweinidogion a'r swyddogion allweddol. Hefyd golyga y bydd gwell cyfatebiaeth rhwng swyddogaethau'r Adrannau a phortffolios y Gweinidogion a'r Pwyllgorau. Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd unrhyw newid i delerau'r swyddogion unigol sy'n gweithio ar bob maes polisi: y ffordd y mae timau wedi eu grwpio mewn Adrannau a fydd yn newid, yn hytrach na'r bobl yn y timau hynny. Fodd bynnag, bydd rhai newidiadau ar y lefel uchaf.

Dyma'r prif newidiadau:

- Bydd Uned Cynhwysiant Cymdeithasol ac Adfywio Cymunedol newydd, dan arweiniad Norma Barry, yn cymryd cyfrifoldeb dros bolisi y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf, cynhwysiant cymdeithasol, perthynas y Cynulliad â'r sector gwirfoddol, camddefnyddio sylweddau a chyfiawnder ieuenctid. Bydd yr Uned yn gyfrifol am gydlynu gweithredu i hybu cynhwysiant cymdeithasol ar draws holl feysydd cyfrifoldeb y Cynulliad, a bydd yn adrodd i'r Bwrdd i'w gadeirio gan George Craig, Uwch Gyfarwyddwr Polisi Cymdeithasol a Materion Llywodraeth. Bydd yr Uned yn cefnogi'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o ran y sector gwirfoddol a chamddefnyddio sylweddau, a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau mewn perthynas â datblygu cymunedau a chynhwysiant cymdeithasol.

- Bydd Cyfarwyddiaeth Tai newydd yn dod â'r holl bolisi sy'n ymwneud â Thai ynghyd o dan gyfarwyddyd John Bader.

- Bydd yr Uned Lleihau Troseddu, dan arweiniad David A'Herne, Cyfarwyddwr Troseddau Cymru y Swyddfa Gartref, yn ymuno â'r Grwp Llywodraeth Leol a Thai, a arweinir gan Adam Peat.

Bydd y trefniadau newydd yn galluogi swyddogion i ddarparu gwell gwasanaeth i'r Cabinet, y Cynulliad a'n partneriaid mewn llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol. Trwy ddod â Thai, Cynllunio Cymunedol a Lleihau Troseddu ynghyd yn y Grwp Llywodraeth Leol a Thai dylem allu gweithio'n fwy effeithiol gyda llywodraeth leol i integreiddio a symud ymlaen gyda'r strandiau polisi allweddol hyn. Yn sgîl hyn bydd polisi gofal cymdeithasol, a fydd yn parhau i fod o dan arweiniad Helen Thomas, yn meddu ar ffocws cliriach ar gyflenwi gwasanaethau cymdeithasol effeithiol i oedolion a phlant, hybu cydweithio, a sefydlu cyfrifoldebau rheoleiddio ac arolygu newydd y Cynulliad o dan y Ddeddf Safonau Gofal.